# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 10 Mawrth 2015**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda

(252)v5

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3 Dadl ar Ail Gyllideb Atodol 2014-15 (30 munud)**

**NNDM5696 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 20.30, yn cymeradwyo'r Ail Gyllideb Atodol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014-15 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ddydd Mawrth, 10 Chwefror 2015.

Troednodyn:

Yn unol â'r darpariaethau perthnasol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheol Sefydlog 20, mae'r Gyllideb Atodol yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol:

(i) y datganiad ysgrifenedig sy'n ofynnol o dan adran 125(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru;

(ii) yr adnoddau y cytunwyd arnynt gan y Trysorlys ar gyfer cyllideb bloc Cymru yn y flwyddyn ariannol y mae'r cynnig yn ymwneud â hi;

(iii) cysoniad rhwng yr adnoddau a ddyrannwyd ar gyfer cyllideb bloc Cymru gan y Trysorlys a'r adnoddau yr awdurdodir eu defnyddio yn y cynnig;

(iv) cysoniad rhwng y symiau amcangyfrifol sydd i'w talu i Gronfa Gyfunol Cymru gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r symiau yr awdurdodir eu talu o'r Gronfa yn y cynnig; a

(v) cysoniad rhwng yr adnoddau i'w hawdurdodi o dan adran 125(1)(a) a (b) o'r Ddeddf a'r symiau yr awdurdodir eu talu o Gronfa Gyfunol Cymru o dan adran 125(1)(c).

Mae'r wybodaeth ychwanegol isod wedi'i darparu i'r Aelodau:

- nodyn yn egluro'r prif wahaniaethau rhwng y cynllun hwn a'r rhai blaenorol.

**Dogfen Ategol**
Ail Gyllideb Atodol ar gyfer blwyddyn ariannol 2014-15
Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

**4 Dadl Cyfnod 4 ar y Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) (30 munud)**

**NDM5719 Leighton Andrews (Rhondda)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

Yn cymeradwyo Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Tnrais Rhywiol (Cymru).

**Dogfennau Ategol**
Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru), fel y'i diwygiwyd ar ôl Cyfnod 3.
Memorandwm Esboniadol fel y'i Diwygiwyd

**5 Cyfnod pleidleisio**

**6 Dadl Cyfnod 3 ar y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (270 munud)**
Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.

**1. Diffyniad datblygu cynaliadwy**

28, 60, 61, 62, 63, 64, 65, 66, 67, 68, 69, 70, 49, 23, 58, 59.

**2. Dyletswydd llesiant**

29, 5, 32, 7, 8, 33, 24, 25, 26.

**3. Nodau llesiant**

30G, 30B, 30C, 30A, 30D, 30E, 30F, 30, 3, 74, 75, 129, 140, 141, 27.

**4. Egwyddor datblygu cynaliadwy**

31D, 31A, 31B, 31C, 31, 9, 46, 10, 50.

**5. Byrddau gwasanaethau cyhoeddus - Sefydlu, cyfranogiad, craffu a swyddogaethau**

73, 87, 88, 39, 40, 89, 90, 91, 41, 92, 54, 55, 93, 42, 94, 95, 96, 97, 99, 100, 101, 102, 103, 104, 105, 106,

107, 108, 109, 139, 110, 112, 113, 114, 115, 116, 117, 118, 119, 120, 121, 122, 72, 71.

**6. Dangosyddion cenedlaethol a cherrig milltir**

11, 12, 13, 14, 15, 16, 76, 17, 18, 19, 123, 77, 20.

**7. Adroddiad tueddiadau tebygol y dyfodol**

78, 126, 127.

**8. Deddf Llywodraeth Cymru - Datblygu cynaliadwy**

34.

**9. Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol - Trefniadau penodi ac ariannol**

79, 130, 21, 142, 22, 51, 52, 53.

**10. Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol - Swyddogaethau**

131, 80, 81, 132, 133, 35, 36, 82, 134, 37, 135, 136.

**11. Panel cynghori**

83, 38, 84, 137, 85, 86.

**12. Byrddau gwasanaethau cyhoeddus - Asesiadau a chynlluniau llesiant**

43, 44, 45, 138, 128, 47, 48.

**13. Darpariaeth yn ymwneud â ffioedd a godir gan Swyddfa Archwilio Cymru**

56.

**14. Asesiadau o angen o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant**

57.

**15. Ystyr "corff cyhoeddus": darpariaeth bellach**

111.

**16. Technegol**

124, 125.

**Dogfennau Ategol**
Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)
Memorandwm Esboniadol Diwygiedig
Rhestr o Welliannau wedi'u Didoli
Grwpio Gwelliannau

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 11 Mawrth 2015

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 5 Mawrth 2015 i'w hateb ar 10 Mawrth 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. **William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynaliadwyedd meddygfeydd teulu yng nghefn gwlad Cymru? OAQ(4)2160(FM)

2. **William Graham (Dwyrain De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu sut y bu Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cydweithio i hyrwyddo Cymru yn ystod ymweliad Dug Caergrawnt â Tsieina? OAQ(4)2164(FM)

3. **Janet Finch-Saunders (Aberconwy)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau mamolaeth yng Nghymru? OAQ(4)2162(FM)

4. **Keith Davies (Llanelli)**: A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi economi gorllewin Cymru? OAQ(4)2167(FM)**W**

5. **Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu sut y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol? OAQ(4)2153(FM)

6. **Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cyhoeddiad Dydd Gŵyl Dewi ynglŷn â datganoli mwy o rymoedd i Gymru? OAQ(4)2169(FM)**W**

7. **Russell George (Sir Drefaldwyn)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ariannu ysgolion ym Mhowys? OAQ(4)2156(FM)

8. **Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)**: Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn gwario'r cyllid a gaiff ei ddyrannu iddynt yn ddoeth? OAQ(4)2159(FM)

9. **Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd)**: Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Phrif Weinidog y DU am amserlen

weithredu ar gyfer y materion lle y nodwyd bod consensws yn Atodiad A y papur gorchymyn Pwerau at Bwrpas? OAQ(4)2158(FM)**W**

**10. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i leihau'r broblem o unigrwydd ac arwahanrwydd ymhlith pobl hŷn? OAQ(4)2157(FM)

**11. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am hawliadau esgeulustod meddygol yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)2155(FM)

**12. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol gwasanaethau meddygon teulu ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)2165(FM)

**13. Aled Roberts (North Wales):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau mamolaeth yn Ysbyty Glan Clwyd yn dilyn ymyrraeth y cyngor iechyd cymuned wythnos ddiwethaf? OAQ(4)2166(FM)**W**

**14. Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i baratoi ar gyfer cyflwyno credyd cynhwysol yn Nhorfaen? OAQ(4)2163(FM)

**15. Byron Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynaliadwyedd economaidd Maes Awyr Caerdydd? OAQ(4)2168(FM)

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn

Dydd Mawrth 17 Mawrth 2015 a Dydd Mercher 18 Mawrth 2015
Dydd Mawrth 24 Mawrth 2015 a Dydd Mercher 25 Mawrth 2015
Toriad: Dydd Llun 30 Mawrth 2015 – Dydd Sul 19 Ebrill 2015
Dydd Mawrth 21 Ebrill 2015 a dydd Mercher 22 Ebrill 2015

---

Dydd Mawrth 17 Mawrth 2015

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar: Y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch Mynediad at Gyllid (30 munud)
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Darpariaethau Canlyniadol) 2015 (15 munud)
- Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Diwygio) 2015 (15 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth (Memorandwm rhif 4): Diwygiad i Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996 mewn perthynas â diogelu chwythwyr chwiban yn y GIG (30 munud)
- Dadl Cyfnod 4 ar y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (15 munud)
- Dadl ar Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru 2013 – 2014 (60 munud)
- Dadl ar Gyflog Cyfartal (60 munud)

Dydd Mercher 18 Mawrth 2015

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)
- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Leanne Wood (Canol De Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 24 Mawrth 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Y diweddaraf ar gamau gweithredu sy'n deillio o adroddiadau'r Pwyllgor Menter a Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Cryfhau Polisi Caffael (30 munud)
- Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) (Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol) (Cymru) 2015 (30 munud)
- Gorchymyn Rheoleiddio Tai Rhent Preifat (Dynodi Awdurdod Trwyddedu) (Cymru) 2015 (15 munud)
- Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol Bil Cymwysterau Cymru (60 munud)
- Cynnig i gytuno ar y penderfyniad ariannol ar Fesur Cymwysterau Cymru (5 munud)

**Dydd Mercher 25 Mawrth 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Amser a neilltuwyd i’r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i’r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Aled Roberts (Gogledd Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 21 Ebrill 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i’r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân:
  - Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) (5 munud)
  - Rheoliadau Digartrefedd (Bwriadoldeb) (Categorïau Penodedig) (Cymru) (5 munud)
  - Rheoliadau Digartrefedd (Gweithdrefnau Adolygu) (Cymru) (5 munud)

**Dydd Mercher 22 Ebrill 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i’r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i’r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)
- Amser a neilltuwyd i’r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer (30 munud)